

Cwestiynau Cyffredin (CC)

Cyffredinol

Beth yw'r Gronfa Twf Leol – Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf i Fusnesau?

Mae'r rhaglen yn darparu grantiau cyfalaf i helpu microfusnesau, busnesau bach a chanolig, busnesau newydd a mentrau cymdeithasol sy'n masnachu i fuddsoddi mewn prosiectau sy'n gwella cynhyrchiant, yn creu swyddi, yn cynyddu cystadleurwydd ac yn cefnogi twf busnes.

Faint o gyllid sydd ar gael?

Mae tair ffrwd ariannu:

Busnesau Newydd a Thwf Cynnar

- Costau prosiect rhwng **£2,857 a £10,000**
- Grant o hyd at **£7,000 (70%)**
- Rhaid i ymgeiswyr gyfrannu o leiaf **30%**

Twf ac Ehangu

- Costau prosiect rhwng **£10,000 a £50,000**
- Grant o hyd at **£35,000 (70%)**
- Rhaid i ymgeiswyr gyfrannu o leiaf **30%**

Twf Mentrau Cymdeithasol:

- Costau prosiect rhwng **£10,000 a £38,500**
- Grant o hyd at **£35,000 (90%)**
- Rhaid i ymgeiswyr gyfrannu o leiaf **10%**

Cymhwysra

Pwy all wneud cais?

Mae'r gronfa'n agored i:

- Busnesau newydd
- Microfusnesau, busnesau bach a chanolig
- Mentrau cymdeithasol sy'n masnachu

Rhaid bod gan eich busnes gyfeiriad gweithredu ffisegol yn Sir Ddinbych neu Sir y Fflint, rhaid iddo fod wedi'i gofrestru (neu wrthi'n cofrestru) â CThEF a rhaid iddo allu darparu rhif UTR.

A all busnesau sy'n gweithredu o'r cartref wneud cais?

Gallant, ar yr amod mai eich cartref yw cyfeiriad gweithredu gwirioneddol eich busnes a bod eich busnes yn bodloni'r holl ofynion cymhwysra eraill. Nid yw swyddfeydd rhithwir yn gymwys.

A all unig fasnachwyr wneud cais?

Gallant, ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf cymhwysra ac wedi cofrestru â CThEF.

A allaf gyflwyno mwy nag un cais?

Na. Dim ond un cais a ganiateir fesul busnes.

Prosiectau Cymwys

Beth all y grant dalu amdano?

Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Peiriannau ac offer
- Systemau digidol a meddalwedd
- Datblygu e-fasnach
- Technolegau carbon isel
- Paneli solar
- Seilwaith gwefru cerbydau trydan
- Gwelliannau i weithdy

Rhaid i brosiectau gefnogi twf busnes a gwell cynhyrchiant.

A allaf brynu offer ail-law?

Gallwch, os:

- nad yw wedi'i brynu o'r blaen gan ddefnyddio cyllid grant;
- ei fod yn cynnig gwerth am arian; ac
- ei fod yn costio llai nag eitem newydd gyfatebol.

A allaf amnewid offer presennol?

Fel arfer, na. Nid yw amnewid offer am offer tebyg yn gymwys oni bai ei fod yn rhan o brosiect ehangach sy'n dangos twf busnes neu welliannau mewn cynhyrchiant yn glir.

Costau Anghymwys

Beth na all y grant ei ariannu?

Ni all y grant ariannu:

- Cyflogau neu gostau staffio

- Rhent a chyfleustodau
- Stoc neu gyfalaf gweithio
- Atgyweirio a chynnal a chadw
- Prynu tir neu eiddo
- Cerbydau a brynir drwy gytundebau cyllid
- Eitemau a brynir cyn cymeradwyo'r grant
- Pryniannau ag arian parod
- Gwariant ôl-weithredol

Mae rhestr lawn o'r costau anghymwys wedi'i chynnwys yn y canllawiau.

Y Broses Ymgeisio

A oes angen cynllun busnes arnaf?

Oes.

Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno:

- cynllun busnes 12 mis;
- rhagolwg llif arian misol ar gyfer blwyddyn;
- gwybodaeth ariannol ategol; a
- dyfynbrisiau ar gyfer costau'r prosiect.

A all rhywun gwblhau'r cais ar fy rhan?

Rhaid i'r cais gael ei gyflwyno gan berchennog y busnes, er bod cymorth ar gael gan Busnes Cymru a Cadwyn Clwyd i helpu i baratoi'r cais.

A oes angen dyfynbrisiau arnaf?

Oes.

- Mae angen un dyfynbris ar gyfer pryniannau hyd at £10,000.
- Mae angen tri dyfynbris ar gyfer pryniannau gwerth £10,001 neu fwy.

Mae'n arfer da dangos gwerth am arian, ac rydym yn argymhell cael tri dyfynbris ar gyfer gwariant rhwng £5,000 a £10,000; fodd bynnag, nid yw hyn yn ofyniad gorfodol o dan yr LGF.

Cydgrynhoi

Pan wneir sawl pryniant gan yr un cyflenwr, defnyddir cyfanswm y gost gan y cyflenwr i bennu'r gofynion o ran dyfynbrisiau. Er enghraifft, os yw oergelloedd gwerth £7,000 a ffyrnau gwerth £9,000 gan Nisbets yn dod i gyfanswm o £16,000, byddai angen tri dyfynbris tebyg am debyg gan gyflenwyr gwahanol.

A allaf ddechrau fy mhrosiect cyn iddo gael ei gymeradwyo?

Na.

Mae unrhyw wariant yr eir iddo cyn derbyn cynnig grant ffurfiol yn anghymwys ac ni ellir ei hawlio.

Cyllid Cyfatebol a Hawliadau

A oes rhaid imi dalu ymlaen llaw?

Oes.

Grant ad-dalu yw hwn. Rhaid ichi:

1. Brynu'r eitemau sydd wedi'u cymeradwyo.
2. Talu'r cyflenwyr yn llawn.
3. Cyflwyno hawliad gydag anfonebau a phrawf o daliad.
4. Derbyn ad-daliad ar ôl i'ch hawliad gael ei gymeradwyo.

A allaf ddefnyddio cyllid neu hurbwrcasu?

Na. Nid yw eitemau a brynir drwy brydles-bwrcasu, hurbwrcasu neu gytundebau cyllid yn gymwys.

A ellir hawlio TAW?

Dim ond os na all eich busnes adennill TAW gan CThEF. Dylai busnesau sydd wedi cofrestru ar gyfer TAW gyflwyno costau'r prosiect heb gynnwys TAW.

Asesu

Sut caiff ceisiadau eu hasesu?

Caiff ceisiadau eu sgorio yn erbyn:

- Arloesi
- Budd economaidd
- Cyflawni canlyniadau
- Potensial i dyfu

Rhaid i geisiadau ennill o leiaf **60 allan o 100** i gael eu hystyried am gyllid.

A yw cyllid wedi'i warantu?

Nac ydy.

Mae hon yn rhaglen grant gystadleuol ac mae'r cyllid yn gyfyngedig. Nid yw bodloni'r meini prawf cymhwystra yn gwarantu cyllid.

A allaf apelio os yw fy nghais yn aflwyddiannus?

Na.

Mae penderfyniad y Panel Grantiau yn derfynol ac nid oes proses apelio ffurfiol. Gall ymgeiswyr ofyn am gyngor ynghylch cyfleoedd ariannu eraill.

Ymgeiswyr Llwyddiannus

Beth fydd yn digwydd os caiff fy nghais ei gymeradwyo?

Byddwch yn derbyn:

- Llythyr Dyfarnu Grant;
- amodau'r grant;
- canllawiau hawlio; a
- ffurflen hawlio.

Rhaid ichi dderbyn y cynnig o fewn 10 diwrnod gwaith.

A fydd angen imi ddarparu tystiolaeth ar ôl cwblhau'r prosiect?

Bydd.

Gall y dystiolaeth gynnwys:

- anfonebau;
- cyfriflenni banc;
- ffotograffau;
- tystiolaeth cyflogaeth;
- canlyniadau'r prosiect; a
- gwybodaeth fonitro.

A fydd Cadwyn Clwyd yn archwilio fy mhrosiect?

O bosibl.

Gall Cadwyn Clwyd gynnal ymweliadau monitro neu hapwiriadau cyn talu eich hawliad grant.

Ar ôl y Grant

A oes angen imi gadw'r offer?

Oes.

Fel arfer, rhaid i asedau a ariennir drwy grant aros gyda'r busnes am bum mlynedd ac ni ellir eu gwerthu na'u trosglwyddo heb ganiatâd ymlaen llaw.

A allai fod yn rhaid imi ad-dalu'r grant?

O bosibl.

Os byddwch yn rhoi'r gorau i fasnachu, yn adleoli y tu allan i'r ardal, yn cael gwared ar asedau a ariennir drwy grant, neu'n torri amodau'r grant o fewn pum mlynedd, efallai y bydd angen ad-dalu rhywfaint neu'r cyfan o'r grant.

Angen Cymorth?

Ble gallaf gael cyngor cyn gwneud cais?

Gall Swyddog Prosiect Grantiau Busnes Cadwyn Clwyd a Busnes Cymru roi cyngor ar:

- gymhwysra;
- datblygu eich cynllun busnes;
- paratoi rhagolygon llif arian;
- cwblhau'r ffurflen gais; a
- deall gofynion y grant.



Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU
Funded by
UK Government

Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council



CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL



Llywodraeth Cymru
Welsh Government